

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-Adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022. Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
1 Mawrth 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn cynyddu'r lefel uchaf ar gyfer gosod premiymau treth gyngor gan awdurdodau lleol ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol yn eu hardaloedd, i 300%.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ("Deddf 1992") (fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) yn galluogi awdurdodau lleol i ddatgymhwyso rhai gostyngiadau treth gyngor i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol yng Nghymru a chymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm).
- 3.2 Mae gan awdurdodau lleol bŵer disgrisiwn hefyd i benderfynu ar swm y premiwm hyd at uchafswm o 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor sy'n gymwys i'r annedd.
- 3.3 Mae adrannau 12A(13) a 12B(12) o Ddeddf 1992 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu canran wahanol yn lle 100%.
- 3.4 Mae rheoliadau a wneir o dan adran 12A(13) a 12B(12) o Ddeddf 1992 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru – yn arbennig i bobl ifanc – ac yn gysylltiedig â hyn, nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau hunanddarpar mewn rhai cymunedau, wedi bod yn destun cryn sylw a thrafodaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Er nad yw'n broblem ym mhob cwr o Gymru, mae nifer yr ail gartrefi a'r llety gwyliau wedi ennyn teimladau cryf mewn rhannau o Gymru.
- 4.2 Cydnabyddir y gall niferoedd uwch o ail gartrefi a llety gwyliau hunanddarpar effeithio ar farchnadoedd tai lleol ac ar gynaliadwyedd cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae eiddo yn wag am rannau o'r flwyddyn.
- 4.3 Er mwyn sicrhau bod pob perchennog cartref a busnes yn gwneud cyfraniad teg i'r cymunedau lle maent yn berchen eiddo neu'n gosod eiddo, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer y trethi

lleol, gan gynnwys y pwerau disgrisiwn a roddir i awdurdodau lleol i gymhwyso premiymau'r dreth gyngor i eiddo a feddiennir yn gyfnodol ac anheddau gwag hirdymor. At ddibenion y ddeddfwriaeth hon, caiff anheddau a feddiennir yn gyfnodol eu trin fel ail gartrefi: fodd bynnag, mae'r term ail gartrefi yn berthnasol i sawl defnydd amrywiol mewn cyd-destunau eraill. Mae'r term anheddau gwag hirdymor yn cyfeirio at anheddau sydd wedi bod yn wag am fwy na blwyddyn.

- 4.4 Bwriedir i'r disgrisiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn fodd i helpu awdurdodau lleol i:
- sicrhau bod cartrefi sy'n wag ers cyfnod hir yn cael eu defnyddio eto i ddarparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
 - helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy.
- 4.5 Pwerau disgrisiwn yw'r rhain, sy'n galluogi awdurdodau lleol i ystyried y gwahanol amgylchiadau o fewn ardaloedd awdurdodau lleol unigol. Mater i bob awdurdod lleol yw'r penderfyniad i godi premiwm a swm y premiwm hwnnw (hyd at uchafswm o 100%) ar hyn o bryd. Dylai awdurdodau lleol roi sylw i'r nodau uchod ac ystyried yr anghenion a'r amgylchiadau tai penodol yn eu hardal wrth wneud unrhyw benderfyniad i gymhwyso premiwm.
- 4.6 Ers iddynt gael eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2017, mae'r premiymau wedi galluogi'r awdurdodau perthnasol i gasglu miliynau o bunnau mewn treth gyngor ychwanegol. Gall unrhyw arian ychwanegol a godir drwy gyfradd uwch o'r dreth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor gael ei ddefnyddio fel y gwêl yr awdurdod lleol yn dda.
- 4.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau i ddefnyddio'r incwm ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio ar y cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phobl leol a pherchnogion tai cyn cyflwyno premiymau, gan ganiatáu o leiaf 12 mis rhwng penderfynu cyflwyno premiwm a'r flwyddyn ariannol pan ddaw i rym.
- 4.8 Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i gynyddu'r lefel uchaf y gellir pennu'r premiwm arni drwy gyflwyno rheoliadau. Byddai cynyddu'r uchafswm i 300% yn rhoi mwy o gyfle i awdurdodau lleol gynyddu'r premiwm yn unol ag anghenion penodol eu hardal. Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu a ddylid cymhwyso premiwm ac, os felly, swm y premiwm hwnnw hyd at yr uchafswm statudol. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt ymateb i amgylchiadau eu ardaloedd penodol.

5. Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 25 Awst a 17 Tachwedd 2021, i geisio barn unigolion a sefydliadau ar y pwerau disgrisiwn sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi cyfradd uwch o dreth gyngor ar eiddo a feddiennir yn gyfnodol ac eiddo gwag hirdymor. Roedd

yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio tystiolaeth am y ffordd y mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r premiymau hyd yma a'r ffordd y maent wedi defnyddio'r refeniw ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio ar y cyflenwad lleol o dai.

- 5.2 Derbyniwyd 974 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r rheini'n adlewyrchu sbectrwm eang o safbwyntiau. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, darparwyr hunanarlwyo, busnesau lleol, cyrff cynrychioliadol, cyrff/cymdeithasau proffesiynol ac unigolion preifat.
- 5.3 Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi cynnydd yn y premiwm uchaf. Prin yw'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad bod rhanddeiliaid yn credu y gallai cynyddu'r ganran uchaf gael effaith gadarnhaol o ran mynd i'r afael â'r materion sy'n codi yn sgil ail gartrefi.
- 5.4 Roedd rhai o'r farn bod y gallu i godi premiymau treth gyngor ychwanegol wedi bod yn ddull defnyddiol i awdurdodau lleol allu lleddfu effaith negyddol eiddo a feddiennir yn gyfnodol ac eiddo gwag hirdymor. Er nad yw llawer o'r cyfleoedd i fynd i'r afael â materion tai drwy breiymau wedi'u gwireddu'n llawn eto, mae rhoi'r opsiwn i awdurdodau lleol osod premiwm o fwy na 100% yn cynnig yr hyblygrwydd iddynt ddefnddio premiwm uwch pan fyddant o'r farn bod yr amgylchiadau lleol yn briodol ac y byddai'r effaith yn fuddiol. Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu a ddylid defnyddio'r pwerau, ac mae natur ddisgresiynol y pwerau yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau o ran rheoli'r materion sy'n effeithio ar y cyflenwad tai yn eu hardaloedd.
- 5.5 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: [Trethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar | LLYW. CYMRU](#)

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau, costau a manteision

- 6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau ddewis mewn perthynas â chynyddu'r lefel uchaf y gall awdurdodau lleol bennu premiymau'r dreth gyngor arni ar gyfer anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol (y cyfeirir atynt yma fel ail gartrefi) i 300%.
- 6.2 Mae'r holl gostau a manteision a fesurir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar wybodaeth a data oedd ar gael i Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hyd at gyhoeddi'r ddogfen.
- 6.3 Mae dau opsiwn wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r diwygiad i'r rheoliadau. Ystyriwyd yr opsiynau canlynol:

Opsiwn 1: Cynnal y sefyllfa bresennol a pharhau â'r trefniadau presennol lle gall awdurdodau lleol ddewis defnyddio'u pŵer disgrisiwn presennol i godi premiymau o hyd at 100%

Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth erbyn 1 Ebrill 2022 i gynyddu'r lefel uchaf y gall awdurdodau lleol bennu premiymau'r dreth gyngor arni ar gyfer anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol i 300%.

Opsiwn 1: Cynnal y sefyllfa bresennol a pharhau â'r trefniadau presennol sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn gallu dewis defnyddio'u pŵer disgrisiwn presennol i godi premiymau o hyd at 100%

- 6.4 Ni fyddai opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol. Byddai'r pwerau presennol yn parhau i roi'r pŵer disgrisiwn i awdurdodau lleol godi premiymau o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol yn eu hardaloedd.
- 6.5 Yn 2022-23, amcangyfrifir y bydd 24,000 o anheddau a feddiennir yn gyfnodol a 22,100 o anheddau gwag hirdymor yn atebol i dalu'r dreth gyngor yng Nghymru. Bydd premiymau'n cael eu talu ar amcangyfrif o 15,300 o anheddau a feddiennir yn gyfnodol a 6,700 o anheddau gwag hirdymor.

Costau

- 6.6 Byddai Opsiwn 1 yn arwain at barhau â'r arfer presennol ac ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i awdurdodau lleol.

Manteision

- 6.7 Ni fyddai angen unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio'u pwerau disgrisiwn presennol.

6.8 Byddai cadw'r premiwm ar uchafswm o 100% yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ariannol i drethdalwyr sy'n atebol i dalu'r premiwm.

Anfanteision

6.9 Mae cyfyngu awdurdodau lleol i'r opsiwn o osod premiwm o hyd at 100% yn cyfyngu ar effaith y premiwm ac yn lleihau'r cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer:

- sicrhau bod cartrefi gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy;
- cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol; a
- darparu unrhyw wasanaethau eraill er budd cymunedau lleol.

6.10 Yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26 wedi'i diweddar, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i geisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig. Mae'n annhebygol y byddai parhau â'r trefniadau presennol, Opsiwn 1, yn gwneud cyfaniad o bwys at yr amcan polisi.

6.11 Mae'r Cytundeb Cydweithio yn cynnwys cyfeiriad at roi "mwy o bwerau i awdurdodau lleol osod cyfraddau premiwm y dreth gyngor a chynyddu trethi ar ail gartrefi." Ni fyddai'r trefniadau presennol yn cyfrannu at yr amcan polisi hwn.

Opsiwn 1 - Crynodeb

6.12 Byddai gwneud dim yn cadw'r trefniadau presennol ac ni fyddai'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i awdurdodau lleol. Ni fyddai'r opsiwn yn hyrwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy graddoledig. Ni fyddai ychwaith yn adlewyrchu ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio o ran premiymau'r dreth gyngor. Felly, nid dyma'r opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth erbyn 1 Ebrill 2022 i godi'r lefel uchaf y gall awdurdodau lleol bennu premiymau'r dreth gyngor arni ar gyfer anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol, i 300%.

6.13 Byddai Opsiwn 2 yn golygu cyflwyno Rheoliadau i ddarparu bod awdurdod lleol yng Nghymru o 1 Ebrill 2023 ymlaen:

- yn gallu gwneud penderfyniad i gymhwyso premiwm o hyd at 300% ar anheddau gwag hirdymor; a/neu
- yn gallu gwneud penderfyniad i gymhwyso premiwm o hyd at 300% ar anheddau a feddiennir yn gyfnodol.

Costau

6.14 Hyd yma, mae 11 o awdurdodau wedi dewis codi premiymau ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi, neu'r ddau. Mae Gwynedd ac Abertawe, wedi pennu'r premiwm ar y lefel uchaf y gellir ei chodi ar anheddau a feddiennir yn gyfnodol, sef 100%, o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Bydd Sir Benfro

yn gwneud hynny o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Mae Abertawe, Ynys Môn a Sir Benfro wedi gosod premiwm o 100% ar anheddau gwag hirdymor

- 6.15 Gan mai dewis yr awdurdod lleol yw gweithredu'r premiymau ai peidio, ni wyddys faint o awdurdodau lleol a fydd yn dewis gweithredu'r naill neu'r llall o'r premiymau sy'n uwch na'r lefel uchaf bresennol o 100%, neu weithredu'r ddau.
- 6.16 Mae hyn yn ei gwneud yn anodd amcangyfrif costau a manteision posibl yr opsiwn hwn yn gywir. Fodd bynnag, mae'r goblygiadau posibl wedi'u nodi isod.
- 6.17 Os bydd awdurdod yn dewis cyflwyno neu gynyddu premiwm uwchlaw'r uchafswm presennol o 100%, mae talwyr y dreth gyngor sy'n atebol i dalu'r premiwm yn debygol o orfod talu mwy o dreth gyngor (hyd at 300% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar gyfer eu heiddo).
- 6.18 Efallai na fydd rhai trethdalwyr yn gallu fforddio'r atebolrwydd treth gyngor ychwanegol hon ac o ganlyniad, bydd angen iddynt naill ai leihau eu gwariant mewn meysydd eraill i fodloni'r atebolrwydd neu ystyried gwerthu eu heiddo neu ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol. Efallai y bydd eraill yn gallu fforddio'r cynnydd ond yn dewis dilyn un o'r llwybrau eraill hyn.
- 6.19 Gallai fod cynnydd yng nghostau casglu a gorfodi'r dreth gyngor i awdurdodau lleol os bydd trethdalwyr yn gwrthod talu'r premiwm ychwanegol. Neu gallai trethdalwyr chwilio am ffyrdd o osgoi'r premiwm. Gallai fod cynnydd hefyd mewn cwynion gan dalwyr y dreth gyngor sy'n ystyried bod y premiwm yn annheg ac yn wahaniaethol. Gallai'r rhain i gyd gael effaith weinyddol ar awdurdodau lleol.
- 6.20 Mae'n debygol y byddai costau gweinyddol cymedrol i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r opsiwn hwn.

Manteision

- 6.21 Ers iddynt gael eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2017, mae'r premiymau wedi galluogi'r awdurdodau perthnasol i gasglu miliynau o bunnau mewn treth gyngor ychwanegol.
- 6.22 Gallai'r refeniw ychwanegol y bydd awdurdodau lleol yn gallu ei greu o weithredu premiwm uwch fod ar gael i helpu i sicrhau bod cartrefi gwag yn cael eu defnyddio eto ac i ddarparu mwy o dai fforddiadwy.
- 6.23 Ceir tystiolaeth bod awdurdodau lleol yn gweld y pŵer presennol yn ddefnyddiol, gan gynnwys pedwar sy'n bwriadu gymhwyso premiwm o 100%. Mae rhoi'r dewis i awdurdodau lleol osod premiwm o hyd at 300% yn cynnig hyblygrwydd iddynt ddefnyddio premiwm uwch pan fyddant o'r farn bod yr amgylchiadau lleol yn briodol ac y byddai'r effaith o fudd.

- 6.24 Gall yr awdurdod lleol ddefnyddio'r arian ychwanegol a godir drwy gyfradd uwch o'r dreth gyngor ar anheddau a feddiennir yn gyfnodol ac eiddo gwag hirdymor i ymateb i amgylchiadau lleol. Er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i liniaru rhai o'r effeithiau y gall ail gartrefi eu cael ar gymunedau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys yr effaith o ran faint o dai fforddiadwy sydd ar gael a'r ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau lleol eraill, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus.
- 6.25 Byddai Opsiwn 2 yn cyfrannu at yr ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26 wedi'i diweddarau i geisio adolygu'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy graddoledig. Byddai hefyd yn cyfrannu at yr amcan yn y Cytundeb Cydweithio i roi 'mwy o bwerau i awdurdodau lleol godi premiymau'r dreth gyngor a chynyddu trethi ar ail gartrefi'.

Anfanteision

- 6.26 Gallai uchafswm uwch arwain at gynnydd yng nghostau casglu a gorfodi'r dreth gyngor i awdurdodau lleol os bydd trethdalwyr yn gwrthod talu'r premiwm ychwanegol. Gallai hefyd arwain at berchnogion yn chwilio am ffyrdd o osgoi'r premiwm. Gall cwynion gan dalwyr y dreth gyngor sy'n ystyried bod y premiwm yn annheg ac yn wahaniaethol gynyddu. Byddai'r ffactorau hyn yn cael effaith weinyddol ar awdurdodau lleol. Byddai angen i awdurdodau ystyried ffactorau o'r fath wrth benderfynu a ddylid cymhwyso premiwm uwch ai peidio.

Opsiwn 2 – Crynodeb

- 6.27 Mae Opsiwn 2 yn gofyn am newid deddfwriaethol. Mae hyn yn golygu rhywfaint o gost weinyddol ychwanegol i awdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cymru. Mae'r opsiwn i ganiatáu gosod premiwm o fwy na 100% yn cynnig yr hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddefnyddio premiwm uwch pan fyddant o'r farn bod yr amgylchiadau lleol yn briodol ac y byddai'r effaith o fudd.
- 6.28 Mae'r opsiwn hwn yn cyfrannu at yr ymrwymiad perthnasol yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26 sydd wedi'i diweddarau ac at amcan yn y Cytundeb Cydweithio.
- 6.29 Felly, Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

7. Dyletswyddau

- 7.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Bwriad cyflwyno premiymau'r dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi oedd helpu i sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto, gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy a hybu cynaliadwyedd gwasanaethau a chymunedau lleol. Bydd y polisi'n cyfrannu at yr amcanion llesiant hyn: Cymru lewyrchus, Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.
- 7.2 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Er y bydd premiymau'r dreth gyngor yn gymwys i rieni plant a phobl ifanc, nid oes unrhyw effaith andwyol ar hawliau plant gan mai un o amcanion y premiymau yw cynyddu'r cyflenwad tai, a fyddai'n diogelu safon byw teuluoedd sydd â'r incwm isaf.

7.3 Y Gymraeg

Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin yr iaith yn gyfartal mewn cysylltiad â'r diwygiad hwn. Gallai defnyddio premiymau gynorthwyo awdurdodau lleol i helpu rhai cymunedau i fod yn gynaliadwy.

7.4 Cydraddoldeb

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar grwpiau sydd â nodwedd warchoddedig o ganlyniad i gyflwyno'r Rheoliadau hyn.

8. **Asesiad Cystadleuaeth**

- 8.1 Nid yw gwneud y Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

9. **Adolygu ar ôl Gweithredu**

- 9.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith cynyddu'r premiwm uchaf i 300% drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.
- 9.2 Bydd y pecyn gwaith i geisio adolygu'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy graddoledig yn cynnwys adolygiad o ostyngiadau, diystiriadau, eithriadau a phremiymau'r dreth gyngor, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyson â blaenoriaethau polisi.

10. **Crynodeb**

- 10.1 Bydd gwneud y Rheoliadau hyn yn cynyddu'r premiwm uchaf o 100% i 300%. Mae'r opsiwn o osod premiwm o fwy na 100% yn cynnig yr hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddefnyddio premiwm uwch pan fyddant o'r farn bod yr amgylchiadau lleol yn briodol ac y byddai'r effaith o fudd.